COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 27 CHWEFROR 2020, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | NA Burnett | SK Dendy | DK Edwards |
| RM Granville | DRW Lewis | JC Radcliffe | JC Spanswick |
| RME Stirman | MC Voisey | CA Webster | AJ Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, MJ Kearn, JE Lewis a/ac KJ Watts

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Hayley Kemp | Prif Swyddog Cynllunio |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

359. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelodau canlynol:-

Y Cynghorydd M Kearn
Y Cynghorydd JE Lewis
Y Cynghorydd R Collins

360. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

361. YMWELIADAU Â SAFLEOEDD

PENDERFYNWYD: Cadarnhau Dydd Mercher 26 Chwefror 2020 fel dyddiad ar gyfer arolygiadau arfaethedig o safleoedd sy'n codi yn y cyfarfod, neu a nodir cyn y Pwyllgor nesaf gan y Cadeirydd.

362. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Nodi Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 16 Ionawr 2020.

363. SIARADWYR CYHOEDDUS

Anerchwyd y cyfarfod gan y siaradwyr cyhoeddus canlynol:-

| **Rhif y cais:** | **Cyfeiriad** | **Enw'r siaradwr** |
|---|---|---|
| P/19/911/RLX | Tir yn Moor Lane | Y Cyngh. N Clarke, gwrthwynebydd |

| | | |
|---|---|---|
| | Porthcawl<br>CF36 3EJ | J Matthews, ymgeisydd |
| P/19/810/FUL | Datblygiad Tai<br>oddi ar All Saints Way,<br>Pen-y-fai, CF31 4BT | Y Cyngh. A Hussain, gwrthwynebydd<br>G John Ymgeisydd cynllunio/<br>asiant |

364. TAFLEN DDIWYGIO

PENDERFYNWYD: Fe wnaeth y Cadeirydd dderbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried newidiadau angenrheidiol i adroddiad y Pwyllgor, er mwyn ystyried sylwadau a diwygiadau hwyr y mae'n ofynnol eu cynnwys.

365. P/19/911/RLX – TIR YN MOOR LANE, PORTHCAWL

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, gyda'r Amodau a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau:-

Cynnig

Amrywio amodau 1, 3, 8, 9, 10, 11, 12, 13 14, 18, 19, 23 a 24 yn P/19/115/RLX i'w gwneud yn bosibl cynyddu'r ddarpariaeth o ran unedau llety ar ffurf cabanau pren o 56 i 80.

Dylai Amod 13 ddarllen fel hyn yn awr:-

13. O fewn chwe mis i ddyddiad y caniatâd hwn, dylai Cynllun Rheoli Traffig a Danfoniadau wedi'i ddiweddaru ar gyfer y safle gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a chael ei gytuno'n ysgrifenedig ganddo. Dylai'r holl symudiadau cyrraedd ac ymadael gan westeion a symudiadau gan gerbydau gwasanaethu a danfon nwyddau i'r safle gael eu gwneud yn unol â'r Cynllun Traffig a Danfoniadau y cytunwyd arno unwaith y bydd y datblygiad mewn defnydd llesiannol.

Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd.

O ganlyniad, dylid newid nodyn cynghori g. ar ddiwedd yr argymhelliad i gyfeirio at Amod 13, nid 10 fel a ganlyn:

g. Bydd angen i'r Cynllun Rheoli Traffig a Danfoniadau sy'n ofynnol i fynd i'r afael ag Amod 13 gynnwys digon o wybodaeth mewn perthynas â'r canlynol:-

(i) Trefniadau cyrraedd ac ymadael gan westeion (cyfarwyddiadau i'r safle ac amseriad y symudiadau hynny);
(ii) Symudiadau cyrraedd ac ymadael gan westeion yn safle cyfagos Parc Carafanau Brodawel;
(iii) Amserlenni Danfon Nwyddau Arfaethedig;
(iv) Meintiau Arfaethedig Cerbydau Danfon Nwyddau/Cerbydau Gwasanaethau;
(v) Diagramau llwybr ysgubedig ategol; a hefyd
(vi) Yr angen i adolygu'r cynllun os bydd unrhyw drefniadau o blith yr uchod yn newid neu ar gais yr Awdurdod Priffyrdd.

Dylai Amod 22 yn yr argymhelliad gael ei ddisodli gan y geiriad canlynol:

22. Dylai gwaith clirio safle gael ei wneud yn gwbl unol â'r canlynol:-

- Manylion dyluniad goleuadau, y dull clirio llystyfiant, y protocol clymog a gymeradwywyd dan Gais Rhif P/18/827/DOC dyddiedig 15 Chwefror, 2019.
- Y mesurau atal llygredd sy'n cynnwys clustogfa 5m o led o'r Safle o Bwysigrwydd Er Cadwraeth Natur ynghyd â bwnd clai 2m x 1m a gymeradwywyd dan Gais Rhif P/19/307/DOC dyddiedig 31 Mai, 2019.

Rheswm: Er budd bioamrywiaeth.

Yn amodol ar gynnwys amod pellach, sef Amod 25, fel a ganlyn:-

25. Cyn meddiant llesiannol y cabannau gwyliau, dylai cynllun ar gyfer darparu arwyddion traffig ar y ffordd ddynesu sy'n rhybuddio ynghylch presenoldeb marchogion sy'n rhannu'r briffordd wrth gyffordd Moor Lane gyda'r A4229 a chyffordd Moor Lane ar bwys Ffynnon Dewi i'r dwyrain a chyffordd Moor Lane gyferbyn â Maes Carafanau Fferm Parc Newydd i'r gorllewin, ynghyd ag unrhyw fesurau goleuo angenrheidiol, gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a chael ei gytuno'n ysgrifenedig ganddo. Wedyn dylid rhoi'r cynllun a gymeradwywyd ar waith yn unol â'r manylion cymeradwy cyn bod y datblygiad mewn defnydd llesiannol a dylai gael ei gynnal a'i gadw wedi hynny hyd byth.

Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd.

Hefyd, dylid cynnwys yr Amod gwreiddiol canlynol dan yr argymhelliad:

26. Dylai'r holl waith i glirio'r safle gael ei wneud yn unol â'r dulliau a mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Dull Lliniaru – Madfall Ddŵr Gribog a baratowyd gan Soltys Brewster Ecology (dyddiedig 28 Hydref 2016).

Rheswm: Er budd bioamrywiaeth.

Yn amodol hefyd ar y canlynol, sef Amod 27:-

27. O fewn 6 mis i ddyddiad y caniatâd hwn dylai cynllun ar gyfer darparu mannau pasio priodol ar hyd Moor Lane i'r dwyrain o'r safle gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i gael cymeradwyaeth ganddo. Dylai'r cynllun cymeradwyo gael ei roi ar waith yn unol â'r manylion a gymeradwywyd cyn bod y datblygiad mewn defnydd llesiannol a dylai'r mannau pasio gael eu cadw wedi hynny hyd byth.

Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd.

Yn amodol hefyd ar Nodyn i. isod:-

Nodyn
Argymhellir bod y datblygwr yn archwilio dulliau o roi anogaeth ar gyfer dulliau cludiant cynaliadwy i ac o'r safle i gyfyngu ar swm y traffig ar y rhwydwaith priffyrdd o'i amgylch.

366. P/19/810/FUL – DATBLYGIAD TAI ODDI AR ALL SAINTS WAY, PEN-Y-FAI

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, gyda'r Amodau a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau:-

Cynnig

Gosod ystafell werthu un llawr dros dro i farchnata'r datblygiad preswyl.

367. P/19/895/RLX - OCEAN FARM, ODDI AR STRYD DEWI, BLAENGARW

PENDERFYNWYD: Gohirio'r cais uchod, er mwyn gallu rhoi'r cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ymweld â'r safle dan sylw:-

Cynnig

Dileu Amod 1 yn P/16/989/RLX i alluogi defnydd parhaol ar gyfer bridio cŵn

368. APELIADAU

(1) Nodi'r pedair Apêl a gafwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, fel a nodir yn adroddiad y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu.

(2) Nodi bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu'r apeliadau canlynol wedi rhoi cyfarwyddyd i'w Caniatáu, gydag Amodau:-

| Rhifau Codau | Yr Hyn yr Apeliwyd yn Ei Gylch |
|---|---|
| A/19/3239599 (1876) | Newid defnydd i safle golchi ceir â llaw gan godi canopi ar ei draed ei hun a lledu un drws yn 35, Village Farm Road, Ystâd Ddiwydiannol Village Farm, Y Pîl. |
| C/19/3240183 (1880) | Newid defnydd i safle golchi ceir â llaw gan godi canopi ar ei draed ei hun a lledu un drws yn 35, Village Farm Road, Ystâd Ddiwydiannol Village Farm, Y Pîl. (Heb ei benderfynu'n ddiweddarach). |

(3) Nodi bod yr Apelydd wedi gofyn am Dynnu'r apêl ganlynol Yn Ôl:-

| Rhif Cod | Yr Hyn yr Apeliwyd yn Ei Gylch |
|---|---|
| A/19/3241246 (1882) | Uned i'w Gosod ar gyfer Gwyliau, Tir ar bwys Fferm Penylan, Abercynffig. |

(4) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu'r Apêl ganlynol wedi rhoi cyfarwyddyd i'w Gwrthod:-

| Rhif Cod | Yr Hyn yr Apeliwyd yn Ei Gylch |
|---|---|
| A/19/3239912 (1879) | Trosi garej bresennol yn Salon Harddwch (Ailgyflwyno P/18/297/FUL), 14 Woodland Avenue, Pen-coed. |

369. LOG HYFFORDDIANT

PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau yn nodi'r sesiwn hyfforddi a oedd yn yr arfaeth ar gyfer Aelodau ar 9 Ebrill 2020.

370. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00